# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 20 Mai 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(267)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)**
Gweld y Cwestiynau

**3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (0 munud)**
Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

**4 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr ymchwiliad i Ganlyniadau Addysgol Plant o Gartrefi Incwm Isel (60 munud)**
**NDM5764 Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr ymchwiliad i Ganlyniadau Addysgol Plant o Gartrefi Incwm Isel, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2015.

**Dogfennau Ategol**

[Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#)
[Ymateb Llywodraeth Cymru](#)

**5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar helpu pobl ifanc i gael gwaith (60 munud)**
**NDM5763 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i Helpu Pobl Ifanc i Gael Gwaith, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2015.

**Dogfennau Ategol**

[Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes](#)
[Ymateb Llywodraeth Cymru](#)

**6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM5765 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi nad yw Cyllid Cymru yn diwallu anghenion busnesau bach ledled Cymru a bod mynediad at gyllid yn parhau i fod yn broblem i lawer o fusnesau bach a chanolig;

2. Yn croesawu'r posibilrwydd o Fanc Datblygu i Gymru, fel y cydnabyddir yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan yr Athro Dylan Jones-Evans; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried rhinweddau'r cynigion a amlinellir yn 'Gweledigaeth ar gyfer Buddsoddi yng Nghymru: Buddsoddi Cymru' a, lle y bo'n briodol, ystyried eu hymgorffori yn y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru ei rhoi i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru.

Mae'r adroddiad gan yr Athro Dylan Jones-Evans ar gael yn:
http://gov.wales/topics/businessandeconomy/policy/access-to-finance/?lang=cy

Mae 'Gweledigaeth ar gyfer Buddsoddi yng Nghymru: Buddsoddi Cymru' ar gael yn: http://www.welshconservatives.com/sites/www.welshconservatives.com/files/buddsoddi_cymru_final_0.pdf

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

**TYNNWYD YN ÔL**

**Gwelliant 2 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ym mhwynt 1, ar ôl 'diwallu', mewnosod 'yn llawn'.

**Gwelliant 3 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ym mhwynt 2, dileu 'Yn croesawu'r posibilrwydd o Fanc' a rhoi yn ei le 'Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Banc'.

**Gwelliant 4 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i ddatblygu Banc Datblygu i Gymru sydd wedi'i gynllunio i:

a) cefnogi busnesau bach i gael mynediad at gyllid a chymorth;

b) datblygu cysylltiadau rhyngwladol, gan gynnwys allforio a mewnfuddsoddi; ac

c) ariannu prosiectau seilwaith mawr, a fyddai hefyd yn egluro rôl Cyllid Cymru yn y dyfodol.

**7 Cyfnod pleidleisio**

**8 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5766 Keith Davies (Llanelli)**

Ysgogi'r economi yng ngorllewin Cymru.

Defnyddio'r ysgogiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i hybu twf.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 2 Mehefin 2015